

# Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych

---

## *Mehefin 2016 – Mehefin 2019*

**Mae'r Strategaeth hon wedi cael ei datblygu mewn partneriaeth rhwng**

Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol Sir Ddinbych  
Gwasanaethau Addysg a Phlant Sir Ddinbych  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Pencampwr Gofalwyr Cyngor Sir Ddinbych  
NEWCIS  
Cymdeithas Alzheimers  
Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru - Gwasanaethau Gofal Crossroads  
Gofalwyr Ifanc WCD  
Teuluoedd yn Gyntaf yn Sir Ddinbych  
Age Connects Gogledd Ddwyrain Cymru  
Mary Dei  
Fforwm Anabledau Dysgu Sir Ddinbych  
MIND Dyffryn Clwyd  
Canolfan Therapi Niwro  
Hafal  
Y Groes Goch Brydeinig

# CYNNWYS

---

	<i>Rhif Tudalen</i>
1. <i>Diffiniad o Ofalwr</i>	3
2. <i>Pwrpas y Strategaeth</i>	3
3. <i>Beth sy'n Dylanwadu ar y Ffordd Rydym yn Cefnogi Gofalwyr yn Sir Ddinbych?</i>	3
4. <i>Sut y dylai partneriaid yn Sir Ddinbych weithio gyda'i gilydd i ddiwallu gofynion deddfwriaeth newydd a gofynion newidiol?</i>	8
5. <i>Faint o Ofalwyr sydd yn Sir Ddinbych?</i>	9
6. <i>Sut mae Gofalwyr yn Sir Ddinbych wedi'u Cefnogi hyd yma?</i>	10
7. <i>Datblygiadau Cenedlaethol</i>	15
8. <i>Cydnabyddiaeth - Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych</i>	16
9. <i>Sut ydym ni'n cynnwys Gofalwyr wrth ddatblygu cefnogaeth a gwasanaethau?</i>	16
10. <i>Sut y byddwn yn gwybod bod y Strategaeth yn gwneud gwahaniaeth i fywydau Gofalwyr yn Sir Ddinbych?</i>	18
11. <i>Cynllun Gweithredu</i>	19

## *ATODIAD 1: Cynllun Gweithredu*

# 1. Diffiniad o Ofalwr

---

1.1 Mae **gofalwyr** yn chwarae rôl ganolog wrth gefnogi pobl ddiamddiffyn i fyw yn eu cartrefi. Maent yn aml yn cefnogi pobl sydd ag anghenion gofal cymhleth a thymor hir, a gall fod yn rôl heriol ac sy'n gofyn llawer.

1.2 Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 newydd yn diffinio Gofalwr fel "person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn".

1.3 Mae'r Ddeddf yn mynd ymlaen i nodi "yn gyffredinol, ni ddylai gofalwyr proffesiynol sy'n derbyn taliad gael eu hystyried fel Gofalwyr at ddibenion y Ddeddf, nac ychwaith pobl sy'n darparu gofal fel gwaith gwirfoddol. Ond, gall awdurdod lleol drin rhywun fel Gofalwr hyd yn oed os na fyddent yn cael eu hystyried fel Gofalwr fel arall os ydynt yn credu y byddai, yng nghyd-destun y berthynas ofalgar, yn briodol i wneud hynny. Gall awdurdod lleol drin rhywun fel Gofalwr mewn achosion lle nad yw'r berthynas ofalgar yn bennaf yn un masnachol."

# 1. Pwrpas y Strategaeth

---

2.1 Diben y ddogfen Strategaeth yw nodi sut y bydd Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych yn parhau i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu ymhellach y gefnogaeth i Ofalwyr yn Sir Ddinbych mewn ffordd sy'n mynd i'r afael ag anghenion lleol Gofalwyr, o fewn cyd-destun y galw cynyddol, deddfwriaeth newydd a newidiadau demograffig.

# 3. Beth sy'n dylanwadu ar y ffordd rydym yn cefnogi Gofalwyr yn Sir Ddinbych?

---

**3.1** Daeth y **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 (y Ddeddf) newydd** i rym ar 1 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn ail-diffinio cyfrifoldeb unigolion a theuluoedd i gynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac mae'n gofyn am newid mewn diwylliant sy'n rhoi mwy o ffocws ar hybu gwytnwch, annibyniaeth, hunan-ofal a chymorth cymunedol. Bydd y Ddeddf yn trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu, gan hyrwyddo annibyniaeth pobl er mwyn rhoi llais a rheolaeth gryfach iddynt.

**3.2** Mae hefyd yn cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo datblygiad sefydliadau dielw preifat, yn eu hardal, i ddarparu gofal a chymorth, a chefnogaeth i ofalwyr, a gwasanaethau ataliol. Mae'r modelau hyn yn cynnwys mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad y defnyddwyr a'r trydydd sector.

**3.3** Mae'r Ddeddf yn cydnabod bod gan Ofalwyr ran allweddol yn y dull gwasanaeth ataliol mewn ardal awdurdod lleol, a bod y Gofalwyr eu hunain yn darparu math o wasanaethau ataliol. Dylai awdurdodau lleol felly helpu i sicrhau bod gofalwyr yn gallu byw eu bywydau eu hunain mor annibynnol ag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys bod yn ymwybodol o anghenion a chanlyniadau iechyd a lles gofalwyr a'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol i gefnogi'r anghenion a chanlyniadau hynny, er mwyn cefnogi a chynnal swyddogaeth ataliol y gofalwyr mewn perthynas â gofal a chymorth i bobl eraill.

**3.4** Yn fwy penodol, bydd y Ddeddf newydd yn:

- Symleiddio a chyfuno'r gyfraith mewn perthynas â Gofalwyr, ac, am y tro cyntaf, yn rhoi hawliau sy'n cyfateb i'r person y maent yn gofalu amdanynt.
- Sicrhau y gall gofalwyr gael mynediad i ystod ehangach o wasanaethau priodol mewn ffordd mwy hyblyg, gan gynnwys mynediad at wybodaeth gynhwysfawr mewn perthynas â phob math o gefnogaeth a gwasanaethau y gellir cael mynediad iddynt heb fod angen asesiad ffurfiol.
- Creu dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau anghenion Gofalwyr pan ymddengys bod gan Ofalwr anghenion cymorth.
- Ei gwneud yn ofynnol i asesiadau fod yn gymesur er mwyn sicrhau bod mwy o ynni yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth yn y gymuned, a chefnogaeth gan sefydliadau yn y trydydd sector.
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cefnogaeth eirioli i unigolion gan gynnwys Gofalwyr. Bydd y ddarpariaeth hon yn cynnwys eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn ogystal ag eiriolaeth anffurfiol.

**3.5** Bydd '**fframwaith cymhwyster' cenedlaethol** newydd yn penderfynu a yw gofalwyr a aseswyd ag anghenion cymorth uwch yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau fel y nodir yn y fframwaith newydd. Bydd gofalwyr ag anghenion cymwys yn cael cynllun cymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau y maent wedi'u nodi eu hunain. Bydd hefyd yn nodi'r cymorth i'w helpu i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd. Bydd cynlluniau cymorth yn destun adolygiadau rheolaidd gan awdurdodau lleol, ac ail-asesiad o anghenion os bydd eu hamgylchiadau yn newid.

**3.6 Strategaeth Newydd Gofalwyr Cymru 2013** – Mae'r strategaeth hon yn gosod y themâu allweddol a chamau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru, a fframwaith y gall asiantaethau yng Nghymru ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth i Ofalwyr. Er bod awdurdodau lleol wedi'u hannog i fabwysiadu themâu allweddol y strategaeth, mae hyn bellach wedi cael ei ddisodli gan ofynion y Ddeddf newydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn ail-ddrafftio Strategaeth Cymru Gyfan yn ystod 2016, yn unol â'r Ddeddf newydd.

**3.7** Mae **Law yn Llaw at Iechyd Meddwl** yn Strategaeth gan Lywodraeth Cymru sy'n cydnabod pwysigrwydd iechyd meddwl a lles i bawb.

**3.8 Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** - Dibenion allweddol y Ddeddf yw pennu fframwaith y bydd yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus penodol yng Nghymru sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni oddi mewn iddo heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r Ddeddf yn nodi nodau lles y mae'n rhaid i awdurdodau eu ceisio er mwyn

gwella lles pobl yn awr ac yn y dyfodol. Bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn eirioli ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a bydd yn cynghori ac yn cefnogi awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf newydd. Bydd gofynion y Ddeddf yn arbennig o berthnasol i Ofalwyr i sicrhau y bydd pob awdurdod yn ymateb i anghenion Gofalwyr i wella eu lles eu hunain.

### 3.9 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae gan sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus gyfrifoldeb i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n caniatáu creu Safonau newydd i sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau Cymraeg. Felly mae gan Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod canlyniadau lles pobl yn cael eu cefnogi, a bod eu hanghenion gofal a chymorth, gan gynnwys eu hanghenion iaith, yn cael eu hasesu a'u diwallu'n briodol. Mae gofynion y Mesur yn cysylltu â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

Mae diffiniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles o les yn cynnwys 'sicrhau hawliau'. Ar gyfer siaradwyr Cymraeg, bydd sicrhau hawliau yn golygu gallu defnyddio eu hiaith eu hunain i gyfathrebu a chymryd rhan mewn gofal fel partneriaid cyfartal. Mae'r Codau Ymarfer o dan y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod Gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu gwasanaethau a bod gwasanaethau'n cael eu cynnig yn Gymraeg i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt fel sy'n ofynnol o dan y "Cynnig Gweithredol".

### 3.10 Yn Lleol (o fewn Sir Ddinbych):

3.10.1 Mae awdurdod lleol Sir Ddinbych yn gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau yn erbyn cefndir o gyfyngiadau ariannol. Felly, mae angen iddo newid y ffordd y darperir gwasanaethau os yw i ymateb yn llwyddiannus i anghenion pobl ddiamddiffyn, yn ogystal â diwallu gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) newydd.

Mae'r angen ar gyfer newid wedi ei adnabod yng Nghynllun Corfforaethol 2012/17 y Cyngor, sy'n cynnwys y blaenoriaethau canlynol:

- *Sicrhau bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu hamddiffyn ac yn gallu byw mor annibynnol ag y bo modd; a*
- *Moderneiddio'r Cyngor i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid.*

3.10.2 Mae **Cynllun Lles Sir Ddinbych** (Cynllun Integredig Sengl) yn canolbwyntio'n gryf ar les a galluogi pobl i fod yn wydn ac annibynnol. Mae'r cynllun hwn yn ddogfen strategol allweddol a fydd yn dangos ymrwymiad ein holl bartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i gydweithio i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion Sir Ddinbych.

3.10.3 Mae **Datganiad Sefyllfa'r Farchnad** Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol Sir Ddinbych yn darparu dadansoddiad o wasanaethau sy'n canolbwyntio'n benodol ar wybodaeth y mae darparwyr gwasanaethau eu hangen. Bydd yn eu cynorthwyo i

benderfynu sut i ymateb a datblygu fel sefydliad. Y bwriad yw rhoi gwybodaeth fanwl i ddarparwyr (a darparwyr posibl) i'w helpu nhw i lunio'r ffordd y maent yn darparu cymorth i oedolion a'u gofalwyr. Mae hon yn ddogfen a gaiff ei diweddarau'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau, e.e. ystadegau, polisiau lleol a chenedlaethol a deddfwriaeth.

**3.10.4 Agwedd Sir Ddinbych at y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles - Dull Seiliedig ar Asedau.** Fel y nodwyd eisoes, bydd y Ddeddf newydd yn newid y modd y bydd cynghorau a gwasanaethau gofal yn gweithio. Yn Sir Ddinbych, bydd staff y Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol yn gweithio gyda dinasyddion, yng nghalon y cymunedau, i hyrwyddo lles a dewis trwy:

- Sgyrsiau ystyrion
- Gweithio gyda dinasyddion i'w cefnogi i gymryd rheolaeth o'u bywydau
- Cefnogi dinasyddion a chymunedau i adeiladu ar eu cryfderau a'u gallu i nodi atebion unigol
- Cysylltu dinasyddion efo'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw

Bydd yr ymagwedd hon yn sicrhau bod y cyngor yn cofleidio ethos y Ddeddf newydd ac yn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y Ddeddf

**3.10.5 Gwasanaethau Addysg a Phlant Sir Ddinbych** - Sefydlwyd 'Grŵp Addysg, Iechyd a Lles' newydd ym mis Mai 2015 ac mae'n disodli'r Grŵp Llywio Iechyd Emosiynol, Grŵp Llywio Ysgolion Iach a'r Grŵp Iechyd Rhywiol.

Prif bwrpas y Grŵp yw:

- Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu dull cydlynol a chyson o wella canlyniadau iechyd a lles plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych.
- Cael trosolwg o'r gweithgareddau iechyd a lles ac ymyraethau ar draws addysg yn Sir Ddinbych i osgoi dyblygu.
- Gwneud defnydd o wybodaeth iechyd ac ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth i lywio darpariaeth gwasanaeth, hyfforddiant a datblygu adnoddau.
- Rhaglen hyfforddiant cydlynol.
- Datblygu strategaethau a pholisiau newydd.
- Monitro iechyd a lles e.e. bwlio.
- Iechyd a lles gofalwyr ifanc Sir Ddinbych.
- Llywodraethu ar gyfer y Cynllun Ysgolion Iach.

Ceir cynrychiolaeth ar y Grŵp o'r tîm Derbyn ac Ymyrraeth, ynghyd â Theuluoedd yn Gyntaf / Gwasanaethau Addysg a Phlant.

### **3.10.6 Y Trydydd Sector yn Sir Ddinbych**

Yn lleol, mae'r trydydd sector mewn sefyllfa dda i helpu i drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn Sir Ddinbych yn diwallu'r galw presennol a'r dyfodol yn

unol â'r Ddeddf newydd, a chefnogi'r sector statudol o ran cyflawni amcanion busnes a pholisi.

Yn hanesyddol mae'r trydydd sector wedi darparu gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol i gefnogi Gofalwyr yn Sir Ddinbych. Yn lleol, mae arian grant oddi wrth yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd wedi caniatáu i'r sector ddatblygu gwasanaethau a all gefnogi Gofalwyr drwy gydol eu taith ofalu. Mae Gofalwyr yn gwerthfawrogi ac yn ymddiried yn y gwasanaethau sydd ar gael ac yn eu gweld fel llai o stigma na gwasanaethau statudol. Mae gallu'r trydydd sector i ddenu arian o ffynonellau allanol i ddatblygu gwasanaethau ychwanegol yn werth ychwanegol sydd o fudd i Ofalwyr a chyllidwyr statudol.

Mae Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol Sir Ddinbych (Oedolion) yn ddiweddar wedi datblygu Strategaeth Trydydd Sector a fydd yn nodi sut y mae'n bwriadu gweithio gyda'r sector dros y pum mlynedd nesaf, ac mae'n cynnwys amlinelliad o'r fframwaith deddfwriaethol cyfredol, yr egwyddorion, y blaenoriaethau, a'r cyllid mewn perthynas â gwasanaethau trydydd sector. Mae hefyd yn cynnwys esboniad o'r fframwaith y bydd GCC Sir Ddinbych yn ei ddefnyddio i ariannu neu gaffael gwasanaethau ar gyfer oedolion a/neu ofalwyr o'r trydydd sector.

### **3.11 Yn rhanbarthol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd)**

#### **3.11.1 Cynllun Gweithredol 2016-2019 BIPBC Canol Gogledd Cymru (Conwy a Sir Ddinbych)**

O dan ymbarél y Bwrdd Iechyd, mae Cynllun Canolog ar gyfer ardal Conwy a Sir Ddinbych yn cael ei ddatblygu drwy ymgysylltu â phartneriaid a staff, a gwrando ar y boblogaeth ynglŷn â'u safbwyntiau mewn perthynas â "Byw yn Iachach a Cadw'n Iach". Bydd y Cynllun yn cymhwyso Blaenoriaethau Corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar lefel leol, a bydd yn gosod y cyfeiriad a'r blaenoriaethau strategol ar gyfer y 3 blynedd nesaf. Pob blwyddyn bydd cynllun gweithredu manwl yn nodi beth y byddwn yn ei wneud i gyflawni'r Cynllun hwn a bydd cyfeiriad strategol y Bwrdd Iechyd yn cael ei adolygu ar ddechrau Blwyddyn 3. Bob blwyddyn bydd y Bwrdd Iechyd yn adrodd ar berfformiad yn erbyn y cynllun hwn.

Yn dilyn ymgynghoriad lleol ac ymgysylltu â'r cyhoedd, mae'r themâu allweddol canlynol wedi'u nodi ar gyfer yr ardal canolog:

1. Gwellu Iechyd a Lles ac anghydraddoldeb iechyd.
2. Gweithio mewn partneriaeth
3. Gwellu Canlyniadau Gofal
4. Parchu unigolion a pharchu urddas.
5. Gwrando a Dysgu o brofiadau yr unigolyn.
6. Sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau.
7. Sut rydym yn cefnogi, hyfforddi a datblygu ein staff

Mae datblygu ysbyty cymunedol newydd ar gyfer Gogledd Sir Ddinbych, ar hyn o bryd yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer yr ardal Ganolog. Bydd dyluniad a datblygiad yr ysbyty newydd yn heriol ac yn werth chweil gan ei fod yn rhoi cyfle i sefydlu adnodd cymunedol yng nghanol un o ardaloedd mwyaf difreintiedig y wlad. Wrth wraidd y gwaith mae'r weledigaeth o ganolfan iechyd a lles, lle gall timau o lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Sector Gwirfoddol weithio gyda'i gilydd mewn modd effeithiol, integredig i wasanaethu'r gymuned. Bydd y datblygiad hwn yn gweithredu fel ffocws iechyd a lles ar gyfer yr ardal am genedlaethau i ddod. Mae BIPBC eisiau annog gwelliant yn lles cyffredinol y trigolion lleol ar gyfer y tymor hir.

Yn ganolog i'r cynllun fydd nifer o gyfleoedd ar gyfer gofalwyr:

- Ymgysylltu â sefydliadau trydydd sector a chynllunio a datblygu achos busnes a sicrhau bod anghenion gofalwyr yn cael eu hadlewyrchu
- Sicrhau bod lle ar gyfer gweithwyr trydydd sector yn y safle adeiladau
- Un Pwynt Mynediad Integredig, gan gynnwys Pencampwyr Gofalwyr, yn gweithio ar y safle ac yn gweithio gyda thimau eraill er mwyn sicrhau mewnbyn gofalwyr i adsefydlu.
- Cynnwys anghenion gofalwyr yn nyluniad Ward newydd, fel y gall gofalwyr dreulio amser gyda'r rhai y maent yn gofalu amdanynt,
- Canolbwyntio ar lechyd Meddwl Pobl Hŷn o ran darparu Gwasanaethau Dydd a Chymunedol, yn ogystal â dyluniad y Ward.
- Athroniaeth BIPBC fydd annog mewnbyn gofalwyr i ofalu ac adsefydlu.

**3.11.2 Mesur Gofalwyr (Cymru) 2010.** Am y tro cyntaf, mae'r ddeddfwriaeth hon yn gosod gofynion statudol ar y Gwasanaeth Iechyd i adnabod gofalwyr, rhoi gwybodaeth iddynt am eu hawliau, gwasanaethau cymorth a hyfforddiant, ac ymgynghori â nhw yn enwedig o ran gofal a thriniaeth y person y maent yn gofalu amdano. Cafodd y gwaith o weithredu'r Mesur ei arwain gan y Byrddau Iechyd yng Nghymru. Cafodd y Mesur, fodd bynnag, ei ddiddymu pan ddaeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) newydd i rym ym mis Ebrill 2016.

Er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn o ofynion y Mesur Gofalwyr i weithredu'r Ddeddf newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid trosiannol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf (2016/17 a 2017/18). Mae'r cyllid wedi cael ei ddyrannu ar y ddealltwriaeth bod cynigion yn cael eu datblygu, gan nodi sut y bydd iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi Gofalwyr o dan y Ddeddf drwy:

- Gryfhau'r dull partneriaeth ar lefel leol.
- Creu cyfleoedd i alluogi'r trydydd sector i gymryd rhan lawn wrth ddarparu.
- Nodi sut y bydd partneriaid yn cynllunio ac yn cyflawni'r cyfrifoldebau cynyddol ar gyfer iechyd a chyfrifoldebau newydd ar gyfer awdurdodau lleol.
- Sicrhau bod cyllid trosiannol yn cael ei ddefnyddio fel dull o ymgorffori'r arfer o brif ffrydio anghenion Gofalwyr, fel ei fod yn dod yn arfer cyffredin

**3.11.3 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Strategaeth y Trydydd Sector**  
Cytunwyd ar y strategaeth hon yn 2015 ac mae'n nodi uchelgais a bwriad y Bwrdd Iechyd, i ddatblygu a chryfhau ei berthynas â'r trydydd sector ac nodi'r trefniadau



gweithredol angenrheidiol ar gyfer gweithio ar y cyd yn effeithiol, er mwyn gwella bywydau a gwella canlyniadau i unigolion, cymunedau a phoblogaeth Gogledd Cymru. Mae datblygu'r strategaeth hon yn gyson â, ac yn bwriadu cefnogi gweithrediad cynllun tair blynedd y Bwrdd Iechyd.

I'r perwyl hwn, mae'r amcanion yn berthnasol i bob sefydliad trydydd sector y mae eu pwrpas, nodau ac amcanion yn cefnogi'r Bwrdd Iechyd i gyflawni'r diben a nodwyd. Mae hyn yn cynnwys yr holl sefydliadau trydydd sector dim ots a ydynt yn cael arian gan y Bwrdd Iechyd neu beidio.

## 4. Sut y dylai partneriaid yn Sir Ddinbych weithio gyda'i gilydd i ddiwallu gofynion y ddeddfwriaeth newydd a gofynion newidiol?

---

4.1 Mae'r Grŵp Strategaeth Gofalwyr wedi ymrwmo i adeiladu ar waith partneriaeth presennol er mwyn ymateb i'r galw, diwallu gofynion y ddeddfwriaeth newydd, a chyflawni canlyniadau i Ofalwyr.

4.2 Mae un o ddarpariaethau mwyaf amlwg y Ddeddf yng Nghymru yn ymwneud â hyrwyddo sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu gofal, cefnogaeth a gwasanaethau ataliol. Yn lleol, mae'r trydydd sector mewn sefyllfa dda i helpu i drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn Sir Ddinbych yn diwallu'r galw presennol a'r dyfodol yn unol â'r Ddeddf newydd, a chefnogi gwasanaethau statudol o ran cyflawni amcanion busnes a pholisi.

4.3 Bydd rheoliadau o dan y Ddeddf newydd yn cael eu defnyddio i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyflwyno gwasanaeth. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gynnal asesiad ar y cyd o anghenion poblogaeth ar gyfer anghenion gofal a chymorth. Gan gynnwys cymorth ar gyfer Gofalwyr a gwasanaethau ataliol, ac ystod a lefel o wasanaethau ar waith i ddiwallu'r anghenion hyn. Bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu sefydlu i ddatblygu hyn. Bydd aelodaeth y byrddau yn cynnwys y trydydd sector, defnyddwyr a chynrychiolaeth Gofalwyr. Bydd canllawiau statudol yn nodi'r angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol roi blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau ar gyfer grwpiau defnyddwyr penodol. Bydd hyn yn cynnwys Gofalwyr.

4.4 Mae angen i Wasanaethau Cefnogi Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych ariannu gwasanaethau fydd yn hyrwyddo lles Gofalwyr a'u cefnogi i barhau i ofalu. Bydd hyn yn cael ei osod yn erbyn yr angen i ymateb i bwysau cyllidebol sy'n cael eu hwynebu gan awdurdodau lleol yn genedlaethol, ac felly bydd buddsoddi mewn gwasanaethau cynaliadwy yn allweddol i ateb y galw hwn.

4.5 Drwy weithio mewn partneriaeth, mae angen i Gyngor Sir Ddinbych, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Trydydd Sector yn Sir Ddinbych ddefnyddio adnoddau cyfunol i wneud y gorau o gyfleoedd i ddatblygu a chynnal gwasanaethau o safon:

- sy'n hyblyg ac yn hygyrch ar draws y sir, ac yn diwallu anghenion unigol Gofalwyr
- sydd, cyn belled ag y bo modd, yn gynaliadwy yn y tymor hir
- sy'n annog ymgysylltu â, a mynediad i, weithgareddau cymunedol sy'n cefnogi'r Gofalwr a'r person sy'n derbyn gofal
- sy'n gwella iechyd a lles Gofalwyr
- sy'n galluogi Gofalwyr i barhau i ofalu, gan gynnwys darparu gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth cyfoedion, hyfforddiant, mynediad i eirioli unigol (os oes angen) a seibiannau byr o'u rôl o ofalu.

## 5. Faint o Ofalwyr sydd yn Sir Ddinbych?

---

5.1 Mae'r nifer o Ofalwyr yn cynyddu. Yn ôl Cyfrifiad 2011, cyfanswm y boblogaeth Gofalwyr yn Sir Ddinbych oedd 11,630.

5.2 Bu cynnydd yn y nifer o Ofalwyr sy'n darparu 50 awr neu fwy o ofal yr wythnos i 3,392, ac mae oddeutu dwy ran o dair o'r gofalwyr hyn dros 50 oed <sup>Cyfrifiad 2011</sup>. Y Gofalwyr hyn sy'n debygol o fod â swyddogaethau gofalu mwy dwys ac a all fod ag anghenion cymorth uwch oherwydd eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol eu hunain. Yn Sir Ddinbych, mae'r gofrestr mwyaf sylweddol o ofalwyr gan NEWCIS a oedd â 2801 o Ofalwyr cofrestredig ar ddiwedd mis Mawrth 2016. <sup>Adroddiad Blynyddol NEWCIS 2015/16</sup>.

5.3 Mae 896 o'r boblogaeth Gofalwyr yn Ofalwyr iau, dan 24 mlwydd oed. O'r rhain, mae 125 yn darparu dros 50 awr o ofal yr wythnos. <sup>Cyfrifiad 2011</sup>. Ar hyn o bryd mae 229 o Ofalwyr Ifanc 18 oed neu iau yn Sir Ddinbych sydd wedi cofrestru gyda Gofalwyr Ifanc WCD. Yn ôl Ymchwil y BBC, mae 8% o blant o dan 18 oed yn ofalwyr ifanc, gan roi poblogaeth gofalwr ifanc o tua 1560 i Sir Ddinbych, sy'n sylweddol uwch na'r ystadegau yn y Cyfrifiad. Hefyd, canfu Cyfrifiad 2011 bod bron i 10,000 o ofalwyr ifanc 5-7 oed yng Nghymru a Lloegr. Ar ben hynny, dangosodd y ffigurau gynnydd o 83% ers 2001 yn nifer y plant 5-7 oed sy'n darparu gofal di-dâl (Cyfrifiad y DU, 2011). Ym mis Mehefin 2016, roedd 26 o ofalwyr ifanc rhwng 5 - 7 oed yn hysbys i Ofalwyr Ifanc WCD.

5.4 Mae'r tueddiadau demograffig yn cael eu hadlewyrchu yn y nifer cynyddol o bobl sy'n byw gyda chyflyrau tymor hir, gan gynnwys anabledau dysgu, dementia a chyflyrau iechyd meddwl, a thwf cyffredinol yn y boblogaeth hyn.

5.5 Mae tua 5,754 o Ofalwyr yn byw yn Y Rhyl a Phrestatyn. Yn Ne'r Sir, mae'r niferoedd uchaf o Ofalwyr yn byw yn ardaloedd Dinbych, Rhuthun a Llangollen. <sup>Cyfrifiad 2011</sup>

## 6. Sut mae Gofalwyr yn Sir Ddinbych wedi'u cefnogi hyd yma?

---

### 6.1 Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol Sir Ddinbych (Oedolion):

6.1.1 Gall llawer o'r cymorth y mae Gofalwyr ei angen gael ei ddarparu trwy gyfrwng asesiad statudol o'r person sy'n derbyn gofal a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth neu wasanaethau ataliol ac adferol. Bydd yr asesiad hwn, a chynllun gofal a cymorth yn canolbwyntio ar ganlyniadau i'w cyflawni a ffyrdd arloesol i'w cyflawni, fel presenoldeb mewn grwpiau lleol sy'n darparu cyfleoedd yn ystod y dydd - ond, os nad oes unrhyw ffordd arall, yna bydd gwasanaethau fel gofal yn y cartref yn cael eu darparu gan y gwasanaethau cymdeithasol. Yn ogystal, gellir darparu gwasanaethau seibiant ar ffurf gofal tymor byr mewn lleoliad preswyl, a gwasanaethau eistedd i'r person sy'n derbyn gofal i roi egwyl i ofalwyr o'u rôl ofalu.

6.1.2 Mae ystod eang o gefnogaeth i Ofalwyr yn Sir Ddinbych yn cael ei ariannu gan grant i sefydliadau trydydd sector sydd â hanes hir a gwerthfawr o gefnogi Gofalwyr. Maent yn darparu gwasanaethau ataliol a all gefnogi Gofalwyr drwy gydol eu taith ofalu. Mae'r gwasanaethau a gyllidir yn cynnwys:

- Swydd Lles Gofalwyr NEWCIS - gwasanaeth cefnogi cyffredinol ar gyfer Gofalwyr sy'n oedolion gan gynnwys gwybodaeth, cyfeirio, cefnogaeth un i un, grwpiau cymorth, cefnogaeth cymheiriaid, hyfforddiant a digwyddiadau cymdeithasol.
- Gweithiwr Cymorth i Ofalwyr Alzheimers - cefnogaeth i Ofalwyr oedolion sydd â diagnosis o ddementia gan gynnwys cymorth un i un, gwybodaeth a hyfforddiant.
- Sesiynau 'Canu ar gyfer yr Ymennydd' Alzheimers - therapi cerddoriaeth ar gyfer oedolion sydd â dementia
- Cynllun Cyfleoedd Cymdeithasol MIND - ar gyfer oedolion sydd â chyflwr iechyd meddwl sy'n cael eu cefnogi gan Ofalwr teuluol.
- Canolfan Therapi Niwro - cefnogaeth ac ystod o wasanaethau arbenigol ar gyfer unigolion â chyflyrau niwrolegol a'u Gofalwyr.
- Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Hafal - cefnogaeth i Ofalwyr oedolion gyda chyflyrau iechyd meddwl gan gynnwys cefnogaeth un i un, gwybodaeth a grwpiau cefnogi.

Mae pob sefydliad lleol hefyd yn rhoi llais i Ofalwyr wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau. Mae gan bob gwasanaeth broses atgyfeirio agored ac maent ar gael i'r holl Ofalwyr sy'n byw yn Sir Ddinbych neu sy'n gofalu am bobl sy'n byw yn Sir Ddinbych.

6.1.3 Yn ogystal â helpu i ddiwallu anghenion Gofalwyr ac amcanion a blaenoriaethau polisi yr awdurdod lleol, mae'r dull hwn yn cefnogi'r trydydd sector i gyflawni ei amcanion a'i flaenoriaethau ei hun.


6.1.4 Yn ystod 2015/16, cafodd 3,229 o Ofalwyr wasanaethau Gofalwyr sy'n cael eu hariannu gyda grantiau trydydd sector. Dylid nodi, fodd bynnag, y gall rhai Gofalwyr fod yn cael mynediad at fwy nag un gwasanaeth ac y gallwn fod yn eu cyfrif ddwywaith yn y ffigur hwn.

6.1.5 Hefyd, dros y pum mlynedd diwethaf mae'r gwasanaethau gofalwyr canlynol wedi'u datblygu yn Sir Ddinbych:

- ✓ Gwasanaeth Asesiad o Anghenion Gofalwyr ymroddedig wedi'i gomisiynu gan y trydydd sector.
- ✓ Cynllun Cerdyn Argyfwng Gofalwyr
- ✓ Cynllun grant unigol i ofalwyr am eitem neu wasanaeth sy'n diwallu angen a aseswyd i'r Gofalwr.
- ✓ Swydd Gweithiwr Gofalwyr Iach yn y Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol (oedolion)
- ✓ Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion – Gweithiwr Cefnogi Gofalwyr gyda'r Tîm Triniaeth Gartref wedi'u lleoli yn Uned yr Ablett, Ysbyty Glan Clwyd.

Datblygwyd y gwasanaethau hyn i ddechrau gyda chyllid grant gan Lywodraeth Cymru, a gafodd ei neilltuo'n benodol yn lleol ar gyfer gwasanaethau Gofalwyr ar ôl iddo gael ei gynnwys yng nghyllideb yr awdurdod lleol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

6.1.6 Mae gwasanaethau eistedd sy'n darparu egwyl fer rheolaidd i Ofalwyr o'u rôl ofalu yn cael eu comisiynu gyda'r trydydd sector a'r sector annibynnol ar sail unigol drwy broses broceriaeth ofal yr awdurdod. Mae'n wasanaeth na chodir tâl amdano i'r Gofalwr ar hyn o bryd. Darperir cyfnodau hwy o seibiant mewn lleoliadau preswyl hefyd er mwyn rhoi seibiant i Ofalwyr. Mae hwn yn wasanaeth y codir tâl amdano i'r person sy'n derbyn gofal.



6.1.7 Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae arian tymor byr wedi bod ar gael i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau cymunedol newydd ac arloesol i gefnogi Gofalwyr, a fydd yn gynaliadwy yn y tymor hir, neu a fydd yn sicrhau manteision tymor hir i Ofalwyr, i'w galluogi i barhau i ofalu am gyfnod hirach. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Prosiect Cefnogi Gofalwyr Cymunedol – wedi'i gomisiynu gyda'r trydydd sector i godi ymwybyddiaeth o Ofalwyr gyda grwpiau cymunedol / busnesau / colegau lleol, ac annog cynhwysiant Gofalwyr mewn gweithgareddau a mentrau cymunedol a lleol.
- Gweithwyr Cefnogi Cynnydd – wedi'u comisiynu gyda menter gymdeithasol leol i ddarparu cefnogaeth ar gyfer oedolion gydag anabledau dysgu i fyw yn fwy annibynnol yn y gymuned. Rhaid i unigolion fod yn byw yn y cartref teuluol i fod yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth.
- Cefnogwyr Gofalwyr – wedi'u comisiynu gyda'r trydydd sector i gefnogi datblygu clystyrau gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd integredig newydd, a sicrhau bod staff yn fwy ymwybodol o Ofalwyr, a datblygu eu gwybodaeth o wasanaethau gofalwyr lleol. Mae un o'r Hyrwyddwyr wedi ei leoli gyda'r Pwynt Mynediad Sengl.

6.1.8 Mae **Pwynt Mynediad Sengl Sir Ddinbych** yn darparu mynediad i wybodaeth, cyngor a chymorth i hyrwyddo iechyd, lles ac annibyniaeth oedolion. Mae hwn yn wasanaeth allweddol a fydd hefyd yn galluogi pobl, gan gynnwys Gofalwyr, i gael mynediad at amrywiaeth eang o gymorth sydd ar gael gan y trydydd sector ac yn eu cymunedau eu hunain. Mae Hyrwyddwr Gofalwyr a leolir yn y Pwynt Mynediad Sengl i ddarparu gwybodaeth ac arbenigedd o fewn SPoA ar gyfer staff a Gofalwyr sy'n cysylltu â'r gwasanaeth.

**6.2 Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** - Tan fis Ebrill 2014, comisiynodd chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru brosiectau Gofalwyr Ifanc yn unigol.

6.2.1 Cafodd darpariaeth ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn Sir Ddinbych trwy gytundeb tair blynedd a gomisiynwyd yn is-ranbarthol (2014-2017) ei ddyfarnu i "Gwasanaethau Gofalwyr Powys" T/A WCD Gofalwyr Ifanc gan Sir Ddinbych, Conwy a Wrecsam mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

6.2.2 Mae cyllid ar gyfer y gwasanaeth hwn ar gyfer Sir Ddinbych yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ynghyd â Theuluoedd yn Gyntaf. Mae manteision allweddol yn cynnwys: effeithlonrwydd ariannol, cysondeb ac effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaeth, Comisiynydd Arweiniol (Conwy), un broses dendro, gwell cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, llai o ofynion adrodd ar y darparwr gwasanaeth, efallai y bydd gwasanaeth mwy o faint gael llais cryfach wrth newid gwasanaethau a chyflenwi.

6.2.3 Mae gan bob Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i nodi ac asesu gofalwyr ifanc o dan Ddeddf Plant 2004 Cymru a Deddf Plant 1989. Mae'n rhaid i ystyriaethau eraill sicrhau bod gwybodaeth ar gael i Ofalwyr Ifanc a'u bod yn ymwybodol o'u hawliau o dan ddeddfwriaeth perthnasol a chanllawiau sydd hefyd yn cynnwys: Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 a'r Mesur Gofalwyr 2010.

6.2.4 Mae'r gwasanaeth presennol yn fwy na gofynion statudol drwy ddarparu gwybodaeth a chynghor i ofalwyr ifanc, ymwybyddiaeth a gwybodaeth mewn gwasanaethau statudol, rheoli atgyfeirio, mynediad i Asesiad Anghenion Gofalwyr Ifanc, darparu gwasanaethau seibiant byr hyblyg sy'n ymateb i anghenion ac amgylchiadau gofalwyr, cymorth unigol a gwaith eiriolaeth, cynlluniau gweithgareddau yn ystod gwyliau ysgol, rhaglenni codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion ac ar draws asiantaethau statudol a gwirfoddol i hybu'r Gwasanaeth, hyrwyddo cyfranogiad gofalwyr ifanc yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau, sesiynau unigol a grŵp.

6.2.5 Arhosodd y model gwasanaeth blaenorol ar waith am 5 mis cyntaf 2014, ac yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd ymarfer ailstrwythuro i ail-gyflunio'r gwasanaeth i fodel Gweithiwr Allgymorth. Newid sylweddol yn y model newydd yw cynnig sesiynau cefnogaeth unigol fel rhan o gynllun cefnogaeth penodol. Mae'r sesiynau hyn yn galluogi Gweithwyr Allgymorth i ddarparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol wedi'i deilwra i Ofalwyr Ifanc.

6.2.6 Mae'r model Gweithiwr Allgymorth yn galluogi Gweithwyr Allgymorth i gefnogi Gofalwyr Ifanc drwy'r gweithgareddau canlynol:

- Asesiadau Gofalwyr Ifanc
- Grwpiau Cefnogi Cymheiriaid
- Cefnogaeth unigol i ofalwyr ifanc
- Cyfrannu at gyfarfodydd teulu a chyfarfodydd amlasiantaeth
- Cyswllt gyda gwasanaethau ieuencid, addysg, tai, gwasanaethau plant, gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd
- Cyfeirio at asiantaethau a gweithgareddau priodol

### **6.3 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:**

6.3.1 Yn hanesyddol, mae'r trydydd sector hefyd wedi derbyn cyllid gan iechyd i gefnogi Gofalwyr drwy eu cyllideb sector gwirfoddol. Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyfleoedd wedi codi drwy'r arian Mesur Gofalwyr gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad Strategaeth Ymgynghori a Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Cymru.

6.3.2 Mae'r gwasanaethau canlynol a ariennir gan iechyd ar gael i gefnogi Gofalwyr yn Sir Ddinbych:

Cyllideb y Sector Gwirfoddol:

- Gwasanaeth Seibiant i Ofalwyr Crossroads - darparu gofal seibiant i Ofalwyr sydd â'u problemau iechyd eu hunain - cael triniaeth neu'n gwella ar ôl triniaeth neu salwch, neu fynyachu apwyntiadau iechyd.
- Swyddi Hwyluswyr Gofal Sylfaenol - gweithio i godi ymwybyddiaeth o Ofalwyr gyda meddygfeydd Meddyg Teulu a chefnogi'r llwybr atgyfeirio i Ofalwyr o fewn gofal sylfaenol.
- Gwybodaeth a chefnogaeth i Ofalwyr oedolion â chyflyrau iechyd meddwl.
- Trefniant comisiynu ar y cyd ar gyfer y Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc WCD

#### Cyllid Mesur Gofalwyr:

- Swydd swyddog Gofalwyr Penodedig gyda BIPBC i reoli gweithredu'r Mesur Gofalwyr
- Capasiti ychwanegol ar gyfer swyddi hwyluswyr gofal sylfaenol gyda'r trydydd sector
- Hyfforddiant ar gyfer staff iechyd, gan gynnwys datblygu modiwlau dysgu a fideo hyfforddi a gynhyrchwyd gyda Gofalwyr Lleol.
- Taflen wybodaeth i Ofalwyr mewn lleoliadau iechyd
- Gweithgareddau ychwanegol, grwpiau gofalwyr a chyfleoedd seibiant, a hyfforddiant i Ofalwyr Ifanc.
- Cyllid ar gyfer MaryDei, menter cymdeithasol yn Ninbych a'r ardaloedd cyfagos, er mwyn parhau ag ymagwedd datblygu cymunedol wrth ddod o hyd i ofalwyr cudd a chefnogi Gofalwyr yn gyffredinol.
- Digwyddiadau ymgynghori i ganfod anghenion Gofalwyr o safbwynt iechyd.

#### Cyllid Dementia:

- Gwasanaeth Cefnogi Dementia gyda Crossroads i ddarparu gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant, cymorth gan gymheiriaid, cymorth 1:1 a chymorth i bobl sydd â dementia, eu gofalwyr a'u teuluoedd.

6.3.3 Ar adeg ysgrifennu'r strategaeth hon, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol ar draws Cymru i gefnogi Gofalwyr o ran y trawsnewid o diddymu'r Mesur Gofalwyr i weithredu'r Ddeddf SSWB newydd. Disgwylir am arweiniad pellach ar ddyrannu'r cronfeydd hyn fydd yn cael eu rheoli gan y byrddau iechyd, ond mae'n bwysig bod partneriaid yn gweithio ar y cyd gyda BIPBC a gyda Gofalwyr i sefydlu blaenoriaethau ar gyfer defnyddio'r arian ychwanegol hyn.

#### 6.4 Y Trydydd Sector:

6.4.1 Fel y nodwyd eisoes, mae gan y trydydd sector y gallu i wneud cais i ffynonellau cyllid allanol i ddatblygu gwasanaethau newydd ac arloesol sy'n ategu eu swyddogaethau craidd a mynd i'r afael ag anghenion lleol. Mae enghreifftiau o'r rhain yn y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys:

- Prosiect Sgiliau Bywyd NEWCIS i gefnogi Gofalwyr yn ôl i gyfleoedd cyflogaeth a gwirfoddoli a ariennir gan y Loteri Fawr
- Menter ar y cyd gan yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr a Fferyllfeydd Gogledd Cymru i ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr i Ofalwyr ar reoli meddyginiaeth.
- Gofalwyr Ifanc WCD - grantiau Ymddiriedolaeth Gofalwyr / Openwork Foundation i ariannu cefnogaeth a gweithgareddau a grwpiau ar ôl ysgol ar gyfer gofalwyr ifanc dan 8 oed.
- WCD Gofalwyr Ifanc - Ymddiriedolaeth Gofalwyr TAS grant Rownd 4 i weithio mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Outward Bound i gynnal cwrs preswyl 5 diwrnod wedi'i anelu at ofalwyr sy'n oedolion ifanc sy'n NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET. Mae 7 ofalwyr ifanc Sir Ddinbych wedi cael cynnig lle.

- Gofalwyr Ifanc WCD - Grantiau o hyd at £150 ar gyfer Gofalwyr ifanc unigol drwy gronfa Cymorth Argyfwng Gofalwyr a Chronfa Gefnogaeth 'Pears Explore More!' .
- Gofalwyr Ifanc WCD - cyllid Clwb Rotari Dinbych am seibiant preswyl 2 ddiwrnod i 12 o ofalwyr ifanc o ardal Dinbych.
- Dechreuodd y Rhaglen 'Help Llaw' yn 2015 ac mae'n gydweithrediad o fudiadau trydydd sector sy'n cefnogi pobl gydag afiechyd meddwl difrifol yng Nghymru, a'u Gofalwyr. Ariennir y rhaglen tan 2018 ac mae'n canolbwyntio ar anghenion cefnogaeth y grŵp hwn o Ofalwyr.
- Menter gymdeithasol Mary Dei dan arweiniad gofalwyr i gefnogi gofalwyr sy'n oedolion o bob oed. Eu canolbwynt cymunedol yw siop ddillad Vintage yn Ninbych. Maent yn trefnu pob math o ddiwyddiadau cymunedol i godi ymwybyddiaeth o anghenion a hawliau gofalwyr ac i godi arian. Mae eu gweithgareddau yn ddeniadol i bobl ifanc gan eu galluogi i gael mynediad at a chyfeirio gofalwyr ifanc i wasanaethau priodol. Sicrhawyd cyllid yn ddiweddar gan Ymddiriedolaeth Freeman Evans, i sefydlu Gofod Gofalwyr uwchben y Siop yn Ninbych. Bydd hyn yn eu galluogi i ddatblygu gweithgareddau a chymorth a arweinir fwy gan ofalwyr.

## 7. Datblygiadau Cenedlaethol

---

7.1 Lanswyd y wefan newydd **DEWIS Cymru** ym mis Mehefin 2016. Ei nod yw darparu gwybodaeth o ansawdd am ofal cymdeithasol a lles ar gyfer dinasyddion Cymru. Mae'r wefan yn cynnwys cronfa ddata chwiliadwy o dros 850 o adnoddau o bob rhan o Ogledd Cymru, a all gynorthwyo pobl gyda'u hanghenion lles. Felly, bydd yn chwarae rhan hanfodol o ran helpu dinasyddion i gael mynediad at wybodaeth am adnoddau a gwasanaethau sydd ar gael yn eu cymuned, a bydd yn arf allweddol i ymarferwyr wrth helpu pobl i ystyried pa adnoddau sydd ar gael iddynt fel rhan o'r sgysiau "hyn sydd o bwys".

7.2 Mae **Family Point Cymru** yn wefan i gysylltu rhieni ac unrhyw un sy'n gyfrifol am blentyn neu berson ifanc â gwasanaethau allweddol yng Nghymru. Gallwch ddod o hyd i gefnogaeth a gwybodaeth leol a chenedlaethol a'r newyddion diweddaraf ar gyfer eich teulu.

Ar ôl blwyddyn o gwmpasu a datblygu, mae Family Point Cymru yn awr ar gael ar draws Cymru, gan gynnig ffordd syml i deuluoedd ddod o hyd i wybodaeth a mynediad i wasanaethau drwy'r wefan, ffôn, testun a negeseuon gwib.

Mae gan gynghorwyr profiadol y llinell wybodaeth gyfoeth o wybodaeth am y gwasanaethau yng Nghymru ar gyfer teuluoedd a phobl ifanc, ac mae ganddynt y sgiliau i ddarparu cefnogaeth eiriolaeth os oes angen.



## 8. Cydnabyddiaeth - Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych

---

8.1 Mae'r Strategaeth wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych. Mae'r grŵp hwn yn fforwm o gynrychiolwyr o ystod eang o sefydliadau gofalwyr. Mae ganddo rôl allweddol wrth helpu i lunio strategaethau lleol a rhanbarthol perthnasol, a dogfennau allweddol eraill mewn perthynas â Gofalwyr, yn ogystal â datblygiad strategol gwasanaethau i Ofalwyr.

8.2 Mae'r grŵp yn gynrychioliadol o brynwyr a darparwyr gwasanaethau Gofalwyr ar draws yr holl grwpiau Gofalwyr, ac mae aelodau yn sicrhau bod anghenion a barn Gofalwyr yn Sir Ddinbych yn cael eu cymryd i ystyriaeth gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel leol a rhanbarthol. Mae aelodau yn ymgynghori ac yn cyfathrebu gyda'u grwpiau/fforymau Gofalwyr priodol er mwyn cynrychioli barn Gofalwyr ar y grŵp, rhannu gwybodaeth a phrofiadau mewn perthynas â gwasanaethau i Ofalwyr, a dylanwadu ar ddatblygu polisi mewn perthynas â Gofalwyr drwy ymateb i weithdrefnau ymgynghori ar lefel leol a chenedlaethol.

8.3 Mae aelodau'r grŵp hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r sector statudol a gwirfoddol ar sail ranbarthol (Gogledd Cymru) ac is-ranbarthol, i ddatblygu dull rhanbarthol o gefnogi Gofalwyr, gan sicrhau bod lles Gofalwyr Sir Ddinbych yn cael eu hystyried.

8.4 Sefydlwyd y Grŵp Strategaeth bron i 18 mlynedd yn ôl, ac mae'n darparu fforwm da ar gyfer gwaith partneriaeth rhwng y sectorau ac ar draws gwahanol grwpiau cleientiaid.

## 9. Sut ydym ni'n cynnwys Gofalwyr wrth ddatblygu cefnogaeth a gwasanaethau?

---

9.1 Mae'r Ddeddf SSWB newydd yn nodi y dylai bod cyfranogiad unigolion ym mhob cam o'r cynllunio a gweithredu gwasanaethau. Yn hanfodol i gyflawni'r ddyletswydd hon fydd ymagwedd sy'n seiliedig ar egwyddorion cyd-gynhyrchu. Mae hyn yn golygu dull gweithredu sy'n:

- Adnabod pobl fel asedau, ac sydd â chyfraniad pwysig i'w wneud i gynllun a gweithrediad gwasanaethau
- Cefnogi a rhoi grym i bobl i gymryd rhan gyda chynllun a gweithrediad gwasanaethau
- Rhoi grym i bobl gymryd cyfrifoldeb am, a chyfrannu at eu lles eu hunain
- Sicrhau bod ymarferwyr yn gweithio mewn partneriaeth â phobl i gyflawni canlyniadau personol ar lefel unigolion a gwasanaeth
- Cynnwys pobl wrth gynllunio canlyniadau ar gyfer gwasanaethau.

9.2 Mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru gynnal asesiad anghenion poblogaeth erbyn diwedd mis Mawrth 2017. Mae'n **rhaidd** i ystod eang o unigolion, grwpiau a sefydliadau gael eu cynnwys yn y broses hon, ac mae ganddynt gyfle i fynegi yr hyn y maent yn ei gredu yw'r anghenion mewn ardal, gan gynnwys anghenion gofalwyr, a pha wasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny, gan gynnwys o ran gwasanaethau ataliol.

9.3 Ar hyn o bryd, mae nifer o ffyrdd y gall Gofalwyr gyfrannu at ddatblygiad y gefnogaeth a'r gwasanaethau. Mae hyn yn amrywio o gasglu tystiolaeth a gwybodaeth trwy drefniadau monitro contractau gyda darparwyr gwasanaethau, holiaduron adborth gwasanaethau cymdeithasol, ac ymgynghori â Gofalwyr. Gall y cyfleoedd i ymgynghori â Gofalwyr ddigwydd mewn sawl ffordd:

- Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych - yn cynnwys swyddogion o fudiadau gwirfoddol sy'n cefnogi ac yn cynrychioli Gofalwyr, ac mae'n darparu dull effeithiol o ymgynghori â'r grwpiau a fforymau Gofalwyr ar draws sbectwm eang o rolau gofalu.
- Caniad - Gwasanaeth cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr Gogledd Cymru ar gyfer camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei reoli ar y cyd gan Cais a Hafal ac mae'n darparu cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr gymryd rhan yn natblygiad a chynllunio gwasanaethau.
- Mae Grŵp Cyfeirio Gofalwyr y Gogledd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn fforwm a sefydlwyd yn ddiweddar gyda chynrychiolaeth Gofalwyr o bob rhan o'r rhanbarth. Nod y grŵp yw cynnig cyngor ac adborth i'r Bwrdd Iechyd ar effaith y gwasanaethau ar Ofalwyr a helpu i greu diwylliant o gynnwys gofalwyr ar bob lefel o fewn y Bwrdd Iechyd.

9.4 Mae'n bwysig bod y trefniadau a'r cyfleoedd cyfredol ar gyfer ymgysylltu yn cael eu defnyddio'n llawn a'u datblygu ymhellach er mwyn diwallu gofynion y Ddeddf newydd.

## 10.Sut y byddwn yn gwybod bod y Strategaeth yn gwneud gwahaniaeth i fywydau Gofalwyr yn Sir Ddinbych?

---

### *Canlyniadau Lles*

#### BETH YW LLES?

“Rwy’n gwybod ac yn deall pa ofal, cefnogaeth a chyfleoedd sydd ar gael i mi ac rwy’n cael y cymorth rwyf ei angen, pan rwyf ei angen, yn y ffordd rwyf ei eisiau”

10.1 Bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) newydd yn gwella lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae “Lles” yn berthnasol i bob rhan o fywyd unigolyn ac yn cael ei ddiffinio mewn perthynas â pherson ynglŷn ag unrhyw un o'r canlynol:

#### **Canlyniad 1: IECHYD CORFFOROL A MEDDWL A LLES EMOSIYNOL**

“Rwy'n hapus ac rwy'n iach”

#### **Canlyniad 2: DIOGELU RHAG CAMDRINIAETH AC ESGEULUSTOD**

“Rwy'n ddiogel ac wedi fy niogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod”

#### **Canlyniad 3: ADDYSG, HYFFORDDIANT A HAMDDEN**

“Gallaf ddysgu a datblygu i'm potensial llawn a gallaf wneud y pethau sy'n bwysig i mi”

#### **Canlyniad 4: CYFRANIAD I GYMDEITHAS**

“Rwy'n gallu ymgysylltu a chymryd rhan, ac rwy'n teimlo'n werthfawr yn y gymdeithas”

#### **Deilliant 5: PERTHNASAU DOMESTIG, TEULU A PHERSONOL**

“Yr wyf yn perthyn ac mae gen i berthynas ddiogel ac iach”

#### **Canlyniad 6: SICRHAU HAWLIAU**

“Mae fy hawliau yn cael eu parchu, mae gen i lais a rheolaeth, yr wyf yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd, mae fy amgylchiadau unigol yn cael eu

hystyried. Gallaf siarad drosof fy hun neu mae gen i rywun sy'n gallu gwneud hyn i mi, ac rwy'n cael gofal drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd arnaf ei angen.

### **Canlyniad 7: ADDASRWYDD LLETY**

“Mae gen i lety addas sy'n diwallu fy anghenion”

### **Canlyniad 8: LLES CYMDEITHASOL AC ECONOMAIDD**

“Rwy'n cael fy nghefnogi i weithio, mae gen i fywyd cymdeithasol a gallaf fod gyda'r bobl yr wyf yn ei ddewis, nid wyf yn byw mewn tloidi ac rwy'n cael yr help y mae arnaf ei angen i dyfu i fyny a bod yn annibynnol”

10.2 Bydd y Ddeddf newydd yn rhoi llawer mwy o ffocws ar y canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer unigolion sydd angen gofal a chymorth, a Gofalwyr sydd angen cefnogaeth. Bydd y broses adolygu asesu yn dal y cynnydd a wneir gan unigolyn o ran cyflawni ei nodau a chanlyniadau. Mae boddhad cwsmeriaid a phrofiad y cwsmer yn elfennau pwysig iawn o sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd yn cael eu darparu, a bydd yr awdurdod lleol yn Sir Ddinbych yn parhau i ddefnyddio ei holiadur 'Dweud eich dweud' sy'n gofyn i gwsmeriaid (defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr) am eu profiadau o'r cymorth a gânt.

10.3 Bydd y dull hwn yn cael ei adlewyrchu yn y gofynion cytundebol a monitro gyda darparwyr gwasanaethau yn Sir Ddinbych gan gynnwys sefydliadau darparwr trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau i Ofalwyr - bydd pob contract yn cynnwys canlyniadau ar gyfer Gofalwyr.

## **11. Cynllun Gweithredu [Atodiad 1]**

---

11.1 Mae hwn yn nodi meysydd datblygu a fydd yn parhau i wella'r cymorth sydd ar gael i Ofalwyr yn Sir Ddinbych. Bydd Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych yn goruchwylio datblygiad Cynllun Gweithredu'r Strategaeth, a bydd yn monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun yn rheolaidd.

11.2 Bydd y camau a amlinellwyd yn sicrhau bod cefnogaeth i Ofalwyr yn Sir Ddinbych:

- yn bodloni gofynion deddfwriaeth newydd
- yn cefnogi'r ymagwedd newydd tuag at gefnogi annibyniaeth
- yn gyson ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru
- yn gyson â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

Ac yn bwysicaf oll, yn diwallu anghenion y Gofalwyr sy'n byw yn Sir Ddinbych.

## Atodiad 1

### Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych

Mehefin 2016 – Mehefin 2019

## CYNLLUN GWEITHREDU

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn rhan annatod o Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych a gafodd ei datblygu ar y cyd rhwng Awdurdod Lleol Sir Ddinbych, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a phartneriaid trydydd sector sydd â diddordeb mewn cefnogi Gofalwyr yn Sir Ddinbych. Mae'r cynllun gweithredu yn ddogfen fyw ac felly bydd yn newid yn ôl yr angen.

Mae'r camau gweithredu wedi cael eu nodi gan aelodau'r Grŵp Strategaeth Gofalwyr, ac wedi'i dystio gan anghenion y Gofalwyr y maent yn eu cefnogi.

Mae'r camau gweithredu wedi'u mapio yn erbyn canlyniadau i ddinasyddion yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) newydd 2014, a hefyd themâu allweddol Cynllun Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer y Rhanbarth Canolog (Conwy a Sir Ddinbych).

<b>Canlyniadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru):</b>	<b>Blaenoriaethau BIPBC ar gyfer Rhanbarth Canol Gogledd Cymru (Conwy a Sir Ddinbych):</b>
<ol style="list-style-type: none"><li>1. Iechyd Corfforol a Meddwl a Lles Emosiynol</li><li>2. Addysg, Hyfforddiant a Hamdden</li><li>3. Cyfraniad at gymdeithas</li><li>4. Perthynas Domestig, Teulu a Phersonol</li></ol>	<ol style="list-style-type: none"><li>1. Gwella Iechyd a Lles ac anghydraddoldeb iechyd.</li><li>2. Gweithio mewn partneriaeth</li><li>3. Gwella Canlyniadau Gofal</li><li>4. Parchu unigolion a pharchu urddas.</li></ol>

5. Amddiffyn rhag cam-drin ac esgeulustod 6. Sicrhau Hawliau 7. Lles Cymdeithasol ac Economaidd 8. Addasrwydd Llety	5. Gwranddo a Dysgu o brofiadau yr unigolyn. 6. Sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau. 7. Sut yr ydym yn cefnogi, hyfforddi a datblygu ein staff
--	---

### Rhestr o dalfyriadau:

<b>GSGSDd</b>	Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych	<b>WCD</b>	Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych
<b>NEWCIS</b>	Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru	<b>SSWBA</b>	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru)
<b>DCSS</b>	Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol Sir Ddinbych	<b>CAB</b>	Cyngor ar Bopeth
<b>SCG</b>	Swyddog Comisiynu Gofalwyr - Sir Ddinbych	<b>MIS</b>	Systemau Gwybodaeth Rheoli
<b>A&amp;GP</b>	Addysg a Gwasanaethau Plant	<b>NWSSIC</b>	Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru
<b>BIPBC</b>	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr		

<b>Ardal Ddatblygu</b>	<b>Cam gweithredu</b>	<b>Canlyniadau SSWB</b>	<b>Blaenoriaethau BIPBC</b>	<b>Gan bwy</b>	<b>Erbyn pryd</b>	<b>Cynnydd</b>
1.Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru	Sefydlu cysylltiadau gyda swyddogion â chyfrifoldeb i sicrhau bod sefydliadau yn Sir Ddinbych yn cymryd rhan yn y broses, ac mae'r AAP yn cynnwys ac yn adlewyrchu anghenion Gofalwyr yn Sir Ddinbych	Pawb	Pawb	Pawb / Sarah Bartlett, Rheolwr Prosiect AAP Rhanbarthol	Gorffennaf / Awst 2016	Mapio rhanddeiliaid ar y gweill.

Ardal Ddatblygu	Cam gweithredu	Canlyniadau SSWB	Blaenoriaethau BIPBC	Gan bwy	Erbyn pryd	Cynnydd
2.Sicrhau bod gofalwyr yn deall ethos a darpariaethau'r SSWBA newydd	<p>Adolygu gwybodaeth gyfredol ar gael i Ofalwyr, (ar draws pob sector) gan sicrhau bod y negeseuon yn cyd-fynd â'r Ddeddf newydd ac agwedd Sir Ddinbych</p> <p>Hyfforddiant ar gyfer Staff y Trydydd Sector ar y Ddeddf newydd.</p> <p>Trefnu sesiynau gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth i Ofalwyr trwy grwpiau a fforymau - defnydd posibl deunydd hyfforddi Cyngor Gofal Cymru.</p>	<p>Pawb</p> <p>Pawb</p> <p>Pawb</p>	1, 2, 4	<p>Pawb</p> <p>GSGSDd</p> <p>Pawb</p>	<p>Gorffennaf 2016</p> <p>Medi ymlaen</p> <p>Medi ymlaen</p>	
3.Sicrhau bod staff iechyd a gofal cymdeithasol yn deall goblygiadau'r SSWBA newydd mewn perthynas â Gofalwyr	<p>Adolygu modiwlau hyfforddiant presennol a datblygu hyfforddiant integredig ar gyfer yr Awdurdod Lleol a staff clwstwr iechyd a'r tîm anabledau cymhleth.</p> <p>Datblygu hyfforddiant i staff iechyd ymhellach</p>	Pawb	Pawb	<p>Datblygu Gweithlu SCG/CSDd</p> <p>BIPBC - Rheolwr Prosiect Mesur Gofalwyr</p>	Medi 2016	

Ardal Ddatblygu	Cam gweithredu	Canlyniadau SSWB	Blaenoriaethau BIPBC	Gan bwy	Erbyn pryd	Cynnydd
4. Sicrhau bod staff yn y gwasanaethau addysg yn deall goblygiadau'r SSWB newydd mewn perthynas â Gofalwyr, ac yn benodol mewn perthynas â Gofalwyr Ifanc	<p>Cynnwys Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc mewn polisiau a gweithdrefnau perthnasol.</p> <p>Codi ymwybyddiaeth gyda staff perthnasol.</p> <p>Targeddu Grwpiau Iechyd a Lles mewn ysgolion i adnabod Gofalwyr Ifanc a chyfeirio ar gyfer cymorth</p>	1,2,3	1	<p>WCD / Swyddogion Arweiniol A&amp;GP / SCG</p> <p>WCD</p> <p>WCD</p>	Hydref i Rhagfyr 2016	
5. Sicrhau bod staff DCSS gyfer gwasanaethau oedolion yn ymgorffori anghenion gofalwyr ifanc mewn arferion gwaith	Datblygu canllawiau arfer da a phroses weithredol ar gyfer staff gwasanaethau oedolion DCSS	Pawb	1,2,4,5	SCG / Swyddog Arweiniol A&GP / Rheolwr SPOA	Hydref i Rhagfyr 2016	
6. Sicrhau bod Gofalwyr yn gwybod sut i gael gwybodaeth a chymorth i'w hunain a'r person y maent yn gofalu amdano.	<p>Hyrwyddo mynediad at Pwyntiau Siarad, Clinigau (anableddau cymhleth), DEWIS, sefydliadau Trydydd Sector a SPOA.</p> <p>Cais Loteri NEWCIS –yn cynnwys capasiti cynyddol ar gyfer Swyddogion Lles i</p>	<p>Pawb</p> <p>Pawb</p>	<p>1, 2, 4</p> <p>1, 2, 4</p>	<p>Pawb</p> <p>NEWCIS</p>	<p>Ar y gweill</p> <p>2015 – 2018</p>	



Ardal Ddatblygu	Cam gweithredu	Canlyniadau SSWB	Blaenoriaethau BIPBC	Gan bwy	Erbyn pryd	Cynnydd
	<p>ddarparu cymorth un i un i Ofalwyr</p> <p>Cyflwyno Rhaglen 'Estyn Allan' ar gyfer Gofalwyr oedolion â phroblemau iechyd meddwl difrifol. (Cymru Gyfan)</p> <p>Mary Dei - datblygiad pellach y dull sy'n seiliedig ar y gymuned i nodi, hysbysu, eirioli a chynnwys Gofalwyr yn Ninbych a'r ardaloedd cyfagos.</p>	<p>Pawb</p> <p>Pawb</p>	<p>1, 2, 4</p> <p>1, 2, 4</p>	<p>Hafal a Caniad</p> <p>Mary Dei</p>	<p>Ymgyrch 2016</p> <p>Ar y gweill</p>	
7. Sicrhau bod cymunedau yn Sir Ddinbych yn 'Ymwybodol o ofalwyr'	<p>Cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer Prosiect Cymorth Cymunedol NEWCIS</p> <p>Hyrwyddo Pwyntiau Siarad yn Sir Ddinbych</p> <p>Mary Dei - datblygiad pellach y dull sy'n seiliedig ar y gymuned i nodi, hysbysu, eirioli a</p>	Pawb	<p>1, 2, 4</p> <p>1, 2, 4</p> <p>1,2,4</p>	<p>NEWCIS/SCG</p> <p>Cydlunydd Pwyntiau Siarad DCSS / Pawb</p> <p>Mary Dei</p>	<p>Mai 2016</p> <p>Ar y gweill</p> <p>Ar y gweill</p>	

Ardal Ddatblygu	Cam gweithredu	Canlyniadau SSWB	Blaenoriaethau BIPBC	Gan bwy	Erbyn pryd	Cynnydd
	chynnwys Gofalwyr yn Ninbych a'r ardaloedd cyfagos.					
8. Aseu anghenion Gofalwyr sy'n oedolion yn unol ag ethos a gofynion y Ddeddf newydd	Adolygu polisi a gweithdrefnau Cyngor Sir Ddinbych yn unol â gofynion y Ddeddf newydd.	Pawb	1, 2, 4, 5	Uwch Swyddogion a Swyddogion Polisi SCG/DCSS	Medi 2016	
	Treialu'r defnydd o Beth sy'n Bwysig 2 i nodi canlyniadau ac anghenion cefnogaeth Gofalwyr.	Pawb	1,2,4,5	Swyddogion / Cefnogwyr Gofalwyr SCG /MIS	Gorffennaf - Medi 2016	
	Cytuno ar broses ar gyfer Gofalwyr sy'n gymwys am gynllun cefnogaeth ffurfiol, gan gynnwys y broses adolygu.	Pawb	1, 2, 4, 5, 6, 7	Uwch Reolwyr a Swyddogion Polisi SCG /DCSS / Swyddogion MIS SCG / NEWCIS	Diwedd Medi 2016	
	Gwerthuso effeithiolrwydd y cynllun peilot Pencampwyr Gofalwyr a chytuno ar fanyleb model / gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.	Pawb	1, 2, 4, 5, 7	SCG/CMHT / Hafal / Caniad	Ionawr 2017	

Ardal Ddatblygu	Cam gweithredu	Canlyniadau SSWB	Blaenoriaethau BIPBC	Gan bwy	Erbyn pryd	Cynnydd
	Adolygu offer a phrosesau Asesu Gofalwyr sydd ar hyn o bryd yn cael eu defnyddio gan Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol, yn unol â gofynion y Ddeddf newydd.					
9. Asesu anghenion Gofalwyr Ifanc yn unol ag ethos a gofynion y Ddeddf newydd	Gweithio ar y cyd gyda darparwyr presennol i sicrhau bod prosesau ar waith yn unol â'r Ddeddf newydd.	Pawb	1, 2, 4, 5	Swyddog Arweiniol A&GP/ WCD	Gorffennaf 2016	
10. Sicrhau cyfranogiad y gofalwr yn asesiad y person sydd ag anghenion gofal, ac yn ystyried pa mor briodol yw asesiadau ar y cyd	Adolygu polisi a gweithdrefnau Cyngor Sir Ddinbych yn unol â gofynion y Ddeddf newydd.  Archwilio manteision ac ymarferoldeb mabwysiadu model cynhadledd teulu i sefyllfaoedd o fewn gwasanaethau i oedolion lle y bo'n briodol.	Pawb	1, 2, 3, 4, 6, 7	Swyddogion Polisi SCG / DCSS  Uwch Swyddogion DCSG/DCSS	Medi 2016  Hydref 2016	
11. Asesu anghenion Gofalwyr Ifanc yn unol ag	Adolygu polisi a gweithdrefnau Cyngor Sir Ddinbych yn unol â	Pawb	1, 2, 3, 4, 6, 7	Swyddogion Arweiniol A&GP/ WCD/SCG	Gorffennaf-Medi 2016	

Ardal Ddatblygu	Cam gweithredu	Canlyniadau SSWB	Blaenoriaethau BIPBC	Gan bwy	Erbyn pryd	Cynnydd
ethos a gofynion y Ddeddf newydd	gofynion y Ddeddf newydd.  Mapio proses ar gyfer cyfeirio Gofalwyr ifanc ar gyfer asesu a chefnogi			Swyddogion Arweiniol A&GP/ WCD/SCG	Gorffennaf-Medi 2016	
12.Cefnogaeth i Ofalwyr mewn Gofal Sylfaenol	Cyllid parhaus ar gyfer swyddi hwylusydd gofal sylfaenol trydydd sector. Cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer swyddi ar gyfer cyfnod cyllido	1, 2, 3, 4, 5, 6, 7	1, 2, 3, 4, 7	BIPBC / meddygfeydd meddyg teulu / y Trydydd Sector	Gorffennaf - Medi 2016	
13. Prosiect Ysbyty Cymunedol Brenhinol Alex	Cynnwys Gofalwyr a sefydliadau'r Trydydd Sector wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau	1, 3, 4, 5, 6, 7	Pawb	BIPBC	Haf 2016 ymlaen	
14. Datblygu Prosiect Gofal Sylfaenol Tŷ Nant (LACH Prestatyn)	Cynnwys Gofalwyr a'r Trydydd Sector wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau	1, 3, 4, 5, 6, 7	Pawb	BIPBC	Haf 2016 ymlaen	
15.Mynediad i eiriolaeth broffesiynol annibynnol i Ofalwyr	Sichrau bod trefniadau comisiynu ar gyfer oedolion yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Gofalwyr.	1,4,5,6,7	1, 2, 4,	Swyddog Comisiynu – oedolion SCG/CSDd	Mehefin 2016	

Ardal Ddatblygu	Cam gweithredu	Canlyniadau SSWB	Blaenoriaethau BIPBC	Gan bwyr	Erbyn pryd	Cynnydd
	<p>NEWCIS - Cyflwyno Cais Loteri i gynnwys gwasanaeth eiriolaeth ffurfiol / wedi'i reoleiddio</p> <p>Archwilio bwllch mewn gwasanaeth ar gyfer gofalwyr ifanc nad ydynt yn ymwneud â gwasanaethau statudol.</p>			<p>NEWCIS</p> <p>GSGSDd</p>	Hydref 2016	
16.Gwasanaethau Cwmsela i Ofalwyr	<p>NEWCIS - Cyflwyno Cais Loteri gan gynnwys gwasanaeth cwmsela ar gyfer Gofalwyr</p> <p>Archwilio darpariaeth statudol o wasanaethau cwmsela i Ofalwyr</p>	1,4,5	1, 2, 4	<p>NEWCIS</p> <p>GSGSDd</p>	<p>Mehefin 2015</p> <p>Hydref 2016</p>	
17.Sicrhau bod Gofalwyr yn cael mynediad i ystod o gyfleoedd hyfforddiant i gefnogi eu rôl ofalu	Cytuno ar ymagwedd ar y cyd gyda datblygu'r gweithlu, lechyd, Ganolfan Gyrfaedd a Chyfleoedd a 3ydd Sector.	2	1, 3, 5	Pawb/Datblygu Gweithlu CSDd	Hydref i Rhagfyr 2016	
18.Gwybodaeth a chymorth Hawliau Lles	NEWCIS - Cyflwyno Cais Loteri i gynnwys gwybodaeth a	1,6	1	NEWCIS		

Ardal Ddatblygu	Cam gweithredu	Canlyniadau SSWB	Blaenoriaethau BIPBC	Gan bwy	Erbyn pryd	Cynnydd
	chefnogaeth ar faterion hawliau lles					
19. Cynyddu gallu i gefnogi Gofalwyr Ifanc (1:1 a Sesiynau grŵp)	Cyflwyno cais am arian tair blynedd i Blant mewn Angen	Pawb	1	WCD	Mehefin 2015	
20. Cefnogaeth i Ofalwyr unigolion sy'n camdefnyddio sylweddau	Mapio'r gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd a nodi unrhyw fylchau yn y gefnogaeth	Pawb	1, 2, 5	SCG / Caniad / tîm Camdefnyddio Sylweddau		
21. Diwallu anghenion asesedig y Gofalwyr	Datblygu cyllidebau cymorth i Ofalwyr.  Datblygu darpariaeth gwasanaethau eistedd hyblyg gan y sector annibynnol ymhellach.  Adolygu Polisiâu a Gweithdrefnau Cyngor Sir Ddinbych ar Asesu a Diwallu Anghenion	1,2,3,4,7	1	SCG/CSDd Comisiynu – oedolion	Gorffennaf 2016 ymlaen  Gorffennaf 2016 ymlaen  Gorffennaf-Hydref 2016	
22. Cymorth i Ofalwyr wrth i ofal ddod i ben	Gwerthuso'r model 'cefnogaeth profedigaeth' a gomisiynwyd gyda NEWCIS	1,2,3,4,6	1, 5	NEWCIS/SCG	Diwedd Mehefin 2016	

<b>Ardal Ddatblygu</b>	<b>Cam gweithredu</b>	<b>Canlyniadau SSWB</b>	<b>Blaenoriaethau BIPBC</b>	<b>Gan bwy</b>	<b>Erbyn pryd</b>	<b>Cynnydd</b>
23. Cefnogaeth i Ofalwyr sydd am gael gwaith, ail-hyfforddi neu ail-fynd i mewn gweithlu.	Datblygu Prosiect Opus Gogledd Cymru	1,2,3,6,7	1, 4	Ann Weir, Swyddog Datblygu CSDd	I gychwyn Ebrill-Mehefin 2016	
24. Cyfleoedd Gwirfoddoli i Ofalwyr	Cefnogi datblygu Swydd Cydlynnydd Gwirfoddoli	1,2,3,7	1, 2, 5, 6, 7	NEWCIS	Mai 2016 ymlaen	
25. Rhaglen 'Mynd i'r Afael â Thlodi'	Sicrhau cefnogaeth i Ofalwyr gan gynnwys cyngor ar gyllid a thai	1,4,5,6,7,8	1	SCG, WCD, CAB	Hydref 2016	